Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar

Reoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (Cymru) (Diwygio) 2007

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2007.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch:

- Budd bwriedig lleihau cyfnod gweithredu'r strategaethau o 5 mlynedd i 3 blynedd.
- Pa rôl fyddai gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol arfaethedig o ran datblygu'r strategaethau.

Mewn ymateb yn y Pwyllgor, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Tair blynedd oedd y cylch cynllunio ar gyfer awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol felly teimlid y byddai'n fuddiol i'r strategaethau redeg am yr un cyfnod o amser.
- Ni fyddai'n briodol i'r Byrddau fod ynghlwm â datblygu'r strategaethau, mater i'r rhiant-gyrff fyddai hynny. Rôl y Byrddau Gwasanaethau Lleol fyddai cydlynu gwaith ar draws gwahanol bartneriaethau a monitro'r broses o weithredu'r strategaethau. Byddai'r canllawiau i gyd-fynd â'r rheoliadau yn cynnwys rôl y Byrddau Gwasanaethau Lleol mewn perthynas â'r strategaethau.

Roedd y Pwyllgor yn argymell cymeradwyo'r Rheoliadau fel y'i drafftiwyd.

Ann Jones AC
Cadeirydd